# Cadeirydd yr Arholwyr,
# Cymhwyster TGAU (Cymwys ar gyfer y Dyfodol) Newydd
# Saesneg Iaith a Llenyddiaeth
### Proffil y Rôl a Ffurflen Gais

## PROFFIL Y RÔL

**Diben:**

Mae CBAC am recriwtio Cadeirydd yr Arholwyr. Yr ymgeisydd llwyddiannus fydd yn gyfrifol am asesu TGAU Lefel Mynediad yng Nghymru.

Cadeirydd yr Arholwyr sy'n gyfrifol am gynnal safonau'r pwnc ar draws y fanyleb o flwyddyn i flwyddyn. Cyfrifoldeb Cadeirydd yr Arholwyr hefyd yw monitro safonau'r Uwch Arholwyr.

**Cyfrifoldebau**

- cynorthwyo staff CBAC i gynnal safonau pwnc penodol ac ar draws manylebau gwahanol, lle y bo'n briodol, o gyfres i gyfres
- cadeirio amrywiol gyfarfodydd gan gynnwys y Pwyllgor Gwerthuso Papurau Cwestiynau (PGPC), cynadleddau arholwyr/safonwyr a chyfarfodydd Dyfarnu
- sicrhau bod y papur(au) cwestiynau a'r cynlluniau marcio'n bodloni gofynion y meini prawf asesu fel y nodir hwy yn y fanyleb a'u bod o safon gymharol a gynhelir o flwyddyn i flwyddyn
- argymell ffiniau gradd i bob gradd ym mhob un o'r cymwysterau ar ddiwedd y broses ddyfarnu
- paratoi adroddiadau ar y prosesau, yn ôl y gofyn
- cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill y gall CBAC wneud cais rhesymol amdanynt.

Bydd angen i Gadeirydd yr Arholwyr fod ar gael am o leiaf **naw** niwrnod y flwyddyn a allai fod yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae tâl rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi i ddeiliad y swydd fynychu PGPC, mynychu’r gynhadledd arholiadau/safoni a’r cynadleddau dyfarnu.

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol**

- gradd yn y pwnc sy'n benodol i'r cymhwyster hwn
- profiad asesu ac addysgu perthnasol
- profiad rheoli pobl
- y gallu i weithio'n dda dan bwysau

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

I gael gwybod mwy, cysylltwch â kirsten.wilcock@wjec.co.uk . Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau yw **18th November 2024.**

**Sut i wneud cais**:
Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac nad ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.
Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodiadau a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Cadeirydd TGAU (CBAC) Saesneg Iaith a Llenyddiaeth** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes arnoch angen unrhyw gymorth pellach, cysylltwch â:-


| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds | Neu | Rabina Chowdhury |
| rob.reynolds@wjec.co.uk | | rabina.chowdhury@wjec.co.uk |
| 02920 265 050 | | 02920 265 019 |



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.